

**CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
COFNODION AR GYFER CYFARFOD A GYNHALIWYD 01/04/2019 YNG
NGHANOLFAN YR HENOED AM 7pm / MINUTES FOR MEETING HELD
ON 01/04/2019 AT THE PENSIONERS' HALL AT 7pm.**

Preseanol: Cadeirydd Mr R G Parry, is-gadeirydd Mrs E Jones, Mrs C Parry, Mrs S Jones, Mrs A E Williams a Mr G Williams.	Present: Chairman Mr R G Parry, Vice-chairman Mrs E Jones, Mrs C Parry, Mrs S Jones, Mrs A E Williams and Mr G Williams.
1. Croeso ac ymddiheuriadau.	1. Welcome and apologies
Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriad am ei habsenoldeb oddi wrth Ms M E Evans. Mrs Nia Dooley yn absennol am ei bod ar gyfnod mamolaeth.	The Chairman welcomed all to the meeting. Apology for her absence was received from Ms M E Evans. Mrs Nia Dooley absent due to being on maternity leave.
2. Datganiadau Diddordeb.	2. Declarations of Interest.
Dim.	None
3. Cadarnhau cofnodion 05/03/2019	3. Ratify minutes 05/03/2019
Derbyniwyd a chadarnhawyd yn gywir cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2019. Mrs S Jones yn cynnig a Mrs C Parry yn eilio.	The minutes of the meeting held on 5 March 2019 were ratified and accepted as a true record of the meeting. Proposed by Mrs S Jones, seconded by Mrs C Parry.
4. Materion yn codi:	4. Matters arising:
(a) Ffordd o'r Groeslon cyn belled â Pen Lôn. Y gwaith wedi'i wneud ar hyd rhywfaint o'r ffordd yn unig. Penderfynwyd gofyn i'r Cadeirydd ofyn i'r Cyngor Sir gwblhau'r gwaith ar hyd gweddill y ffordd.	(a) Road from Groeslon as far as Pen Lôn. Work had been carried out on part of the road only. It was decided that the Chairman ask the County Council to complete the work on the rest of the road.
(b) Ffordd ger Tyrpeg. Gwaith wedi'i gwblhau.	(b) Road by the Tollgate. Work completed.
(c) Arwydd i gyfeirio at yr Eglwys. Y Cadeirydd wedi gofyn am arwydd i'r Cyngor Sir. Yn dilyn trafod y mater ymhellach penderfynwyd y dylid cael dau arwydd - un o'r A5 a'r llall ar bwys Lôn Afon Felin. Y Cadeirydd I gynghori'r Cyngor Sir bod angen dau arwydd.	(c) Signpost directing to the Church. The Chairman had requested the County Council to erect a sign. Following further discussion it was decided that two signs were needed – one from the A5 and the other by Afon Felin. The Chairman to advise the County Council that two signs are needed.
5. Gohebiaeth:	5. Correspondence:
(a) Un Llais Cymru	(a) One Voice Wales.
(i) Pwyllgor Ardal Ynys Môn 21/3/2019. Cafwyd adroddiad ar gynnwys y pwyllgor gan y Clerc.	(i) Ynys Môn Area Committee 21/3/2019. Report on the content of the committee was given by the Clerk.
(ii) Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr. Adroddiad Mike Harriman o gyfarfod mis Mawrth 2019. Derbyn er gwybodaeth.	(ii) Betsi Cadwaladr Stakeholder Reference Group. Mike Harriman's report from the March meeting. For information.,
(b) Cyngor Sir Ynys Môn.	(b) Anglesey County Council

(i) Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned 14/3/2019. Cafwyd adroddiad gan Mrs Edna Jones ar gynnwys y fforwm..	(i) Town and Community Councils Liaison Forum 14/3/2019. Report by Mrs Edna Jones on the content of the forum.
(ii) Ffilm Gwydnwch 11/4/2019 o 6pm i 8pm yn Oriol Ynys Môn. Gwahoddiad i'r digwyddiad. Neb yn rhydd i dderbyn y gwahoddiad.	(ii) Resilience film 11/4/2019 from 6pm to 8pm at Oriol Ynys Môn. Invitation to attend. No-one free to accept the invitation.
(c) Jill Evans MEP, a Chadeirydd CND Cymru. Claddu Gwastraff Niwclear yng Nghymru. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.	(c) Jill Evans MEP and Chairman of CND Wales. No Underground Nuclear Waste Dump in Wales.
(d) Calor Rural Community Fund. Cefnogaeth ariannu ar gael yn 2019/20. Derbyn er gwybodaeth. Y Clerc wedi anfon copi at Brian Veevers i sylw Pwyllgor Maes Chwarae Plant.	(d) Calor Rural Community Fund. Funding Support available in 2019/20. For information. Clerk had sent a copy to Brian Veevers for the attention of the Playing field committee.
(e) Mabon Ap Gwynfor, Staff Cymorth Aelod Cynulliad. Ymateb Swyddfa Archwilio Cymru i drafferthion i glercod yn dilyn penodi BDO yn Archwilwyr Allanol. Cadarnhau bod cytundeb BDO yn dod i ben y flwyddyn nesaf ac na fyddant yn gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru o 2020 ymlaen. Bydd y gwaith archwilio yn cael ei wneud yn fewnol gan Swyddfa Archwilio Cymru..	(e) Mabon ap Gwynfor, Assembly Member Support Staff. Response from the Wales Audit Office to the difficulties experienced by clerks following the appointment of BDO as External Auditors. Confirmation that BDO's contract ends next year and thereafter they will not be working for Wales Audit Office from 2020 onwards. The auditing will be carried out in house by the Wales Audit Office.
(f) Rhun ap Iorwerth AC. Cylchlythyr.	(f) Rhun ap Iorwerth AM. Newsletter.
(g) Cais am gyfraniad oddi wrth Môn FM ac Urdd Gobaith Cymru. Penderfynu peidio cyfrannu.	(g) Request for donation from Môn FM and Urdd Gobaith Cymru. It was decided not to send donations.
(g) Boom Cymru. Y Clerc wedi derbyn cais dros y ffon gan y cwmni teledu i ffilmio dechrau a chau'r rhaglen Priodas Pum Mil ar y cae Peldroed. Trafodwyd y mater. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais, ond gofynnwyd i'r Clerc gysylltu ag ysgrifennydd y Clwb Peldroed yn gofyn eu caniatâd i'r ffilmio. Os oedd caniatâd i'w gael, y Clerc i gysylltu â'r cwmni ffilmio i'w cynghori o hynny ac i'w hatgoffa y dylent gysylltu â'r Awyrlu yn Fali ynglŷn â ffilmio gyda drôn.	(g) Boom Cymru. The Clerk had received a request by phone from the TV company to film the beginning and ending of the programme "Priodas Pum Mil" at the Football field. The matter was discussed. No objection to the request, and the Clerk was requested to contact the football club secretary to ask permission to film on the football field. If permission was granted, the Clerk to contact the TV company stating that permission was granted and reminding them that they should contact RAF Valley concerning filming by drone.
6. Materion ariannol. Trafodwyd sefyllfa ariannol y Cyngor. Adolygwyd y sefyllfa ariannol a derbyniwyd adroddiadau'r Clerc sy'n dangos sefyllfa	6. Financial matters. The Council's financial position was discussed and the Clerk's report, which showed a healthy financial position at the end of the

<p>ariannol iach ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2018/19. Y Clerc wedi derbyn gwybodaeth gan BDO bod rhaid anfon y dogfennau gofynnol ar gyfer archwiliad allanol erbyn y 1af Gorffennaf, 2019.</p>	<p>2018/19 financial year. The Clerk had received notification that BDO required the documents necessary for external auditing by the 1st July 2019.</p>
<p>7. Unrhyw fater arall yn ôl doethineb y Cadeirydd. Dim.</p>	<p>7. Any other matter at the Chairman's discretion. None.</p>
<p>CYFARFOD NESAF. Cynhelir y cyfarfod nesaf, a fydd yn Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol, nos Lun 13 Mai 2019 yng Nghanolfan yr Henoed am 7pm.</p>	<p>NEXT MEETING. The next meeting, which will be the Annual General Meeting, will be held on Monday, 13 May 2019 at the Pensioners' Hall at 7pm.</p>
<p>Daeth y cyfarfod i ben am 8.10pm.</p>	<p>The meeting concluded at 8.10pm.</p>